# WYNNE, OWEN (1652-?), swyddog yn y gwasanaeth gwladol

**Enw:** Owen Wynne
**Dyddiad geni:** 1652
**Dyddiad marw:** ?
**Plentyn:** William Wynne
**Rhiant:** Elin ferch Robert ap John ap William
**Rhiant:** Hugh Gwyn
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** swyddog yn y gwasanaeth gwladol
**Maes gweithgaredd:** Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

Ail fab Hugh Gwyn ('Hugh ap John Owen') o'r Waunfynydd, Llechylched, Môn (o hil Hwfa ap Cynddelw, arglwydd Llifon yn y 12fed ganrif), ac Elin ferch Robert ap John ap William o Dre'r-ddolphin. Ymaelododd yn Rhydychen o Goleg Iesu, 10 Gorffennaf 1668, a graddiodd yn 1672; yn ddiweddarach cafodd radd doethur yn y gyfraith ac yn ôl pob tebyg yr oedd yn ddadleuydd yn Doctors' Commons, 10 Ionawr 1694. Bu'n ysgrifennydd cyfrinachol i Syr Leoline Jenkins pan oedd hwnnw'n 'Secretary of State,' a daliodd swydd 'Under-secretary' dan olynwyr Jenkins hyd tua 1690 - yn y cymeriad hwnnw yr oedd yn ysgrifennydd y ddirprwyaeth a anfonwyd gan Iago II (Tachwedd 1688) i siarad â William o Orange. Y mae Wynne felly'n enghraifft gynnar o'r swyddogaeth wladol barhaol; gwelir adroddiad cyfoed o'i ddyletswyddau (megis cadw holl bapurau'r swyddfa, a chyfieithu'r papurau Lladin, Ffrangeg, etc.) yn F. M. G. Evans, *The Principal Secretary of State*, 1923, 192 - ei gyflog oedd £140 gyda'i lety a'i fwyd neu £200 hebddynt. Swyddau eraill a fu gan Wynne oedd bod yn warden y Mint (hyd 1690), ac yn ysgrifennydd comisiwn y llongau a gipiwyd gan y llynges mewn rhyfel (Ionawr 1693). Byddai'n hysbysu i'w gyfeillion yng Ngogledd Cymru (yn arbennig Syr Robert Owen o Frogyntyn a'r Clenennau - gweler yr ysgrif ar Syr John Owen) y newyddion diweddaraf o lys Iago II.

### WILLIAM WYNNE (1693 - 1765), cyfreithiwr ac awdur

Mab hynaf Owen Wynne. Aeth yntau i Rydychen, gan ymaelodi o Goleg Iesu ar 23 Ionawr 1709, a graddio yn 1712; aeth i'r Middle Temple yn 1718 a gwnaethpwyd ef yn sersiant yn y gyfraith yn 1736. Etifeddod bapurau preifat Syr Leoline Jenkins (a adewsid i Owen Wynne), ac ar eu sail cyhoeddodd yn 1724 ddwy gyfrol, *The Life of Sir Leoline Jenkins*. Bu farw 16 Mai 1765, a chladdwyd yn abaty Westminster, wythnos wedyn.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau


W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899), 140 (cymysglyd)

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 111

Foster, *Alumni Oxonienses*

Florence Mary Greir Evans *The Principal Secretary of State. A survey of the office from 1558 to 1680* (Manchester 1923), 155-6, 164, 192

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, 6th R., app.

N.L.W. *Llawysgrifau Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, llythyrau 1656, 1695, a'r llythyr dyddiedig 8 Ionawr, 1684, na restrwyd eto


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 88518916

Wikidata: Q7114710


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu